



Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C
16 Mai, Ystafell Werdd, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 427

Presennol:

**Aelodau Anweithredol
y Bwrdd:**

Huw Jones	(Cadeirydd)
Siân Lewis	(Aelod o'r Bwrdd) - eitemau 1-8
Anita George	(Aelod o'r Bwrdd)
Owen Derbyshire	(Aelod o'r Bwrdd)
Rhodri Williams	(Aelod o'r Bwrdd)

**Aelodau Gweithredol
y Bwrdd Unedol Cysgodol:**

Owen Evans	(Prif Weithredwr)
Elin Morris	(Prif Swyddog Gweithredol)
Amanda Rees	(Cyfarwyddwr Cynnwys)

**Hefyd yn bresennol:
Staff S4C:**

Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu)
Phil Williams	(Ysgrifennydd y Bwrdd)
Carys Evans	(Pennaeth Dadansoddi) – eitemau 6-10
Huw Jones	(Uwch Swyddog Dadansoddi) – eitemau 6-10
Arwyn Rawson Thomas	(Pennaeth Cynllunio a Rheoli Cynnwys) – eitemau 6-10
Bethan C. Williams	(Cynorthwydd Ysgrifennydd y Bwrdd)

Ymddiheuriadau: Hugh Hesketh Evans (Aelod o'r Bwrdd)

MATERION SEFYDLOG:

1. Croeso a Datganiadau Diddordeb

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod y Bwrdd yng nghanolfan S4C Caerdydd.

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran y Bwrdd ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

2 Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 426 a gynhaliwyd ar Ebrill 11eg, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd rhif 426 a gynhaliwyd ar Ebrill 11eg. Cytunwyd un gwelliant a chymeradwywyd gweddill y cofnodion.

3. Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 426

Ap Tywydd – Roedd RM wedi cysylltu gyda RhW i drafod y nam gydag adnabod lleoliad defnyddwyr yr Ap Tywydd. Nodwyd nad yw'r ap wedi'i ddiweddarau, a bod trafodaethau yn parhau o ran opsiynau ar gyfer diweddarau'r ap.

TAW – diweddariad

[Crynodeb: Cyflwynodd EM ddiweddariad parthed y trafodaethau am statws TAW S4C gyda CThEM.]

Ymgynghoriad y BBC parthed trwyddedau i bobl dros 75 oed

Cyfeiriodd OE at ymateb cadarnhaol yr Ysgrifennydd Gwladol i'w lythyr yn ymwneud ag ymgynghoriad y BBC parthed trwyddedau i bobl dros 75 oed ac ariannu S4C o 2022/23.

Penderfynwyd y dylid cyfleu ymateb yr Ysgrifennydd Gwladol i'r BBC, ac i'r Cadeirydd ei drafod gydag ECS, OE i'w drafod gyda RTD a PW i'w drafod gydag Ysgrifennydd Cwmni'r BBC.

4. Cofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu

Cyflwynwyd y Gofrestr Penderfyniadau a Phwyntiau Gweithredu er gwybodaeth.

5. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Diweddariad trefniadau archwilio allanol gyda'r NAO

Cyflwynodd PW ddiweddariad parthed y trafodaethau gyda'r NAO. Roedd perthynas gadarnhaol yn datblygu rhwng yr NAO ac S4C. Mae'r broses o gytuno ar *letter of engagement* rhwng yr NAO ac S4C yn parhau, a gobeithir gallu dod i gytundeb ar y llythyr yn fuan.

Roedd bwriad hefyd i gynnal trafodaethau gyda Grant Thornton yn dilyn cwblhau gwaith ar flwyddyn ariannol 2018/19 er mwyn trosglwyddo'r awenau i'r NAO.

[Crynodeb: Yn ogystal trafodwyd y trefniadau ffioedd ac archif ffeiliau archwilio].

Ofcom

Cyfeiriwyd at lythyr terfynol Ofcom i S4C sydd wedi cynnwys gydag adroddiad y Cadeirydd, a nodwyd y bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan S4C.

Ymestyniad tymor y Cadeirydd

Nodwyd fod DCMS wedi cadarnhau'n ffurfiol fod tymor y Cadeirydd wedi ei ymestyn tan ddiwedd Medi. Gobeithir y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno i gyhoeddi'r hysbyseb swydd yn fuan.

Roedd y Cadeirydd wedi trafod cynrychiolaeth S4C ar y panel sifft a'r panel penodi gyda DCMS a chafwyd ar ddeall y bydd yr aelod sydd wedi gwasanaethau hiraf ar y Bwrdd, sef HHE, yn cynrychioli S4C ar y panel.

Ymweliad â'r Egin gan Eluned Morgan AC, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

Nodwyd fod y Gweinidog wedi ymweld â'r Egin yn gynharach yn ystod y dydd. Roedd staff yr adran gyfathrebu wedi ei chrosawu a'i thywys o amgylch yr adeilad.

Ysgrifennydd newydd y Bwrdd

Roedd y Cadeirydd wedi cyfarfod gydag Owain Lloyd. Bydd yn mynychu cyfarfod y Bwrdd naill ai ym Mehefin neu Orffennaf.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynwyd adroddiad ar lafar gan y Prif Weithredwr, a chyfeiriwyd yn benodol at y materion a'r papurau canlynol.

Strategaeth y Gwasanaeth

Cyflwynodd OE drosolwg o'r Strategaeth drosgynnol arfaethedig. Esboniwyd bod holl elfennau'r strategaeth wedi eu datblygu yn dilyn comisiynu gwaith ymchwil allanol a

mewnol am farn y gynulleidfa. Roedd y strategaeth hefyd yn ceisio rheoli'r broses o fudo cynnwys a'r gynulleidfa o lwyfannau teledu i lwyfannau ar-lein.

[Crynodeb: Roedd y strategaeth yn cynnwys buddsoddi mewn hyrwyddo a chreu deunydd penodol ar gyfer y llwyfannau digidol ac ar-lein.]

Strategaeth Cynnwys

Cyflwynodd AR brif benawdau'r Strategaeth Cynnwys ar gyfer y cyfnod byr dymor hyd at 2020, y tymor canolig hyd at 2022 a'r hir dymor hyd at 2027, gan nodi fod amcanion pendant wedi'u llunio ar gyfer y cyfnodau dan sylw.

Yn ystod y cyfnod Medi 2019 - Ebrill 2022, cyflwynir nifer o newidiadau i'r amserlen er mwyn ceisio cynnig rhywbeth i bawb pob noson o'r wythnos rhwng 6.30 a 10pm. Bwriedir parhau i flaenoriaethu gwariant a dileu pryniannau yn yr oriau brig, a pheidio cynyddu cyfradd ailddarllediadau.

[Crynodeb: Trafodwyd y defnydd o'r cronfeydd wrth gefn ar gyfer hyrwyddo.]

Newidiadau i'r amserlen

Cyfeiriwyd at newidiadau arfaethedig i'r amserlen, gan nodi mai'r cam cyntaf fydd symud slot chwaraeon brynhawn Sadwrn i nos Wener ym mis Awst 2019, a fydd yn creu arbediad ariannol ac yn caniatáu slot ar gyfer arlwy 'craidd' ar nos Sadwrn.

Yr ail gam fydd symud Newyddion, tua Mawrth 2020, o 9 o'r gloch i 7.30pm, yn amodol ar gadarnhau dyddiad symud gwasanaethau newyddion y BBC i Sgwâr Canolog.

[Crynodeb: Trafodwyd rhai agweddau eraill o'r amserlen.]

Bydd Rownd a Rownd hefyd yn symud i 8.30pm nos Fawrth a nos Iau, a Pobol y Cwm yn cael slot rheolaidd bob nos.

Bwriedir darlledu rhaglenni gydag apêl eang rhwng 9 a 10 o'r gloch.

Esboniwyd bod angen peidio gwahaniaethu rhwng comisiynu syniadau ar gyfer teledu ac ar-lein a cheisio torri'r ffiniau sy'n bodoli rhwng digidol a llinol.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am flaenoriaeth ac amseru'r pwyslais ar blatfformau newydd yng nghyd-destun ein dibyniaeth ar ein perfformiad.]

Pwysleisiodd y Cadeirydd yr angen i ystyried cyfanswm maint y gynulleidfa ar draws pob llwyfan, a beth fyddai impact unrhyw newidiadau o ran y ddarpariaeth ar draws llwyfannau ar gyfanswm ffigyrau gwyllo S4C.

Holwyd sut y bydd modd mesur perfformiad y gwasanaethau digidol, a nododd OE fod bwriad i ddatblygu adroddiad cryno, tebyg i'r daflen ffigyrau sy'n cael ei chyflwyno i'r Bwrdd yn fisol.

Penderfynwyd y byddai'r Adran Ddadansoddi yn cyflwyno cyd-destun a chefnidir mesuryddion ffigyrau gwyllo ar-lein yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.

[Crynodeb: Wrth drafod y newidiadau i'r amserlen nodwyd yr angen i sicrhau fod pwrpas y ddarpariaeth chwaraeon yn glir a chyfeiriwyd at anfantais y diffyg HD ar Freeview. Roedd cyhoeddi pob pennod o Merched Parchus ar Clic wedi amlygu'r defnydd o YouTube i'w gwyllo yn hytrach na Clic. Bydd Walter Presents yn gyfle i hyrwyddo llwyfan Clic. Pwysleisiodd yr angen i gynllunio'r defnydd o ailddarllediadau'n ofalus.]

7. **Strategaeth Hyrwyddo**

Cyflwynodd GW y Strategaeth Hyrwyddo arfaethedig.

Cyfeiriodd at flaenoriaethau'r Strategaeth Hyrwyddo, gan gynnwys neilltuo adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer hyrwyddo, datblygu gweithgareddau hyrwyddo digidol, cyflwyno ymgyrchoedd sylweddol ar gyfer hyrwyddo Hansh, Clic a brand newydd ar gyfer S4C maes o law.

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at lefel y buddsoddiad mewn hyrwyddo dros y blynyddoedd Nodwyd fod digwyddiadau, megis yr eisteddfodau a'r Sioe, gyda gwyliau Fferm Ffoli a Tafwyl, yn elfennau allweddol o hyrwyddo a lledaenu neges S4C. Oherwydd cyfyngiadau ariannol nid oes modd cynnal ymgyrchoedd dwys fel yn y gorffennol. Pwysleisiwyd yr angen i gynnal ymgyrch sylweddol ar ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref er mwyn denu'r gwylwyr craidd yn ôl.]

Nodwyd y bydd cyflwyno mewngofnodi gorfodol ar Clic o gymorth, gan y bydd modd datblygu hyrwyddo wedi ei bersonoli yn y dyfodol.

8. **Polisi diwydiannol**

Cyflwynodd OE bapur cefndirol yn cyflwyno gwaith ymchwil a gomisiynwyd er mwyn datblygu polisi diwydiannol ffurfiol ar gyfer S4C.

Roedd ymgyngorwyr wedi cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr y sector er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth o anghenion a phryderon y sector, gan gynnwys ym meysydd hyfforddiant, sgiliau, partneriaethau, perthynas gyda chronfa fasnachol S4C, cydbwysedd cwmnïau 'bach' a 'mawr', hunaniaeth ac annibyniaeth cwmnïau, materion hawliau rhaglenni a sicrhau adnoddau dynol priodol o fewn S4C i ddatblygu'r berthynas gyda'r sector a datblygu'r polisi arfaethedig.

Cyfeiriwyd at gynhadledd darparwyr addysg uwch ac addysg bellach sydd wedi ei threfnu yn yr Egin yn cyflwyno cyfleoedd o fewn y diwydiant teledu Cymraeg i fyfyrwyr, ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol pe byddai cynrychiolwyr S4C yn ceisio cael ein partneriaid yn y gynhadledd i geisio diffinio anghenion y sector a'r colegau.

[Crynodeb: Nodwyd yr angen i wahaniaethu'n glir rhwng polisi diwydiannol a'r polisi comisiynu a phwysigrwydd y diffiniad statudol o gwmni annibynnol yng ngoleuni pryniant cwmnïau.]

Cymeradwyodd y Bwrdd gyfeiriad cyffredinol y Strategaeth a gyflwynwyd ar gyfer 2019-27, gan gynnwys yr elfennau canlynol:

1. Cyflwyniad i Strategaeth S4C;
2. Cynllun Trosynnol: Amserlenni a Chynnwys 2019-2022 (gan gynnwys newidiadau arfaethedig Cam 1 a Cham 2 i'r amserlen liniol), gan gynnwys amlinelliad o strategaeth hyd at 2027; a
3. Strategaeth Hyrwyddo 2019-2022 (gan gynnwys blaenoriaethau hyrwyddo a chyllideb ddiwygiedig ar gyfer yr adran).

Cymeradwywyd yn ogystal y bwriad i lunio Polisi Diwydiannol i'w gymeradwyo gan y Bwrdd, gan ddefnyddio'r ymchwil a'r egwyddorion a gyflwynwyd yn y papur trafod fel sail.

Penderfynwyd y byddai OE yn llunio Amcanion Gweithredol i S4C ar gyfer 2019/20, gan ddefnyddio penawdau ac arweiniad y Strategaeth a gyflwynwyd fel sail i'r amcanion, ac i'w cyflwyno ar gyfer ystyriaeth, ac os yn briodol cymeradwyaeth y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

9. **Adolygiad Gwariant y Llywodraeth**

Nodwyd fod y gwaith paratoi ar gyfer yr Adolygiad Gwariant yn parhau.

10. **Perfformiad y gwasanaeth dros y mis diwethaf**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd HJY grynodeb o berfformiad y gwasanaeth dros y mis diwethaf.]

11. **Adroddiad Blynyddol 2018-19**

[**Crynodeb:** Cyflwynwyd diweddariad ar y broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol a nodwyd y byddai drafft wedi ei ddylunio o'r naratif a'r Adroddiad yn cael ei gylchredeg i'r Bwrdd o fewn pythefnos.]

Penderfynwyd cylchredeg drafft wedi ei ddylunio i'r Aelodau cyn cyfarfod bwrdd fis Mehefin.

12. **Adroddiadau o gyfarfodydd y Pwyllgorau**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd y Pwyllgorau a gynhaliwyd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill.

Adroddiad o gyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar 8fed o Fai, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Masnachol a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fai, 2019 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 10fed o Ebrill, 2019

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynnwys a gynhaliwyd ar 10fed o Ebrill, 2019 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

Adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill a gynhaliwyd ar 16eg o Fai, 2019

Cyfeiriwyd at gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd cyn cyfarfod y Bwrdd, a nodwyd fod holl Aelodau'r Bwrdd wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y Datganiad Ariannol drafft ar gyfer 2018/19 a derbyn adroddiadau blynyddol yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol.

[**Crynodeb:** Cyflwynodd y Cadeirydd y Datganiad Ariannol drafft ar gyfer 2018/19. Cymeradwywyd y Datganiad gan y Bwrdd, gan awdurdodi'r Cadeirydd i gymeradwyo unrhyw ddiweddariadau yn ôl yr angen.]

13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.]

14. **Rhaglen Waith 2019/20**

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2019/20 er gwybodaeth i'r Bwrdd.

Nodwyd fod y Rhaglen Waith wedi ei addasu er mwyn amserlennu cyflwyno'r Adroddiadau Cynnwys a Dadansoddi a Chyfathrebu gyda'i gilydd fesul chwarter, a newidiadau oedd yn deillio o'r newid patrwm.

Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud ar y Rhaglen Waith cyn cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin er mwyn cyflwyno braslun cynhwysfawr o waith y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer y flwyddyn.



15. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

16. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.